

1. Presenoldeb, Ymddiheuriadau a Chyflwyniad Rhagarweiniol

- 1.1 Yn Bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Chris Franks, Caroline Davies, Gerry Jenson, Cathy Clark, David Elis-Williams, Nick Taylor, Iwan Hywel, Marjorie Williams, Toni Schiavone (Is-Gadeirydd), Heather Willbourn, Dafydd Rhys. Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
- 1.2 Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr Dros Dro), Mark Baines (Pennaeth Cyllid ac Adnoddau), Cath Hicks (Pennaeth AD a Datblygu'r Gweithlu), Stephen Thomas (Ysgrifennydd a Chlerc y Cwmni), Catrin Gilkes (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd, Rob Burton (Swyddog Cyflwyno'r Cwricwlwm ar gyfer Gwaith Ieuenctid – cofnod 1 yn unig).
- 1.3 Ymddiheuriadau: Gayle Hudson, June Jeremy, Sonia Reynolds (Is-Gadeirydd).
- 1.4 Yn Absennol: Kaitlin Crisp, Glenys Hughes-Jones.

1.5 Rhaglen weithgareddau yn ein Gwaith Ieuenctid, Cymunedol a Chwarae

Rhoddodd Rob Burton gyflwyniad gweledol a llafar ar y maes gwaith hwn ar ran y tîm cyflwyno cenedlaethol, ynghyd â thaflen yn darparu data ar gofrestrïadau a chyrtsiau. Gofynnodd aelodau'r Cyngor gwestiynau am effaith y gostyngiad mewn cyllid awdurdodau lleol ar y meysydd hyn; y rhagolygon am achrediad parhaus ar ôl 2019 trwy Agored Cymru; y sefyllfa mewn perthynas â hyfforddiant a hyfforddwyr cyfrwng Cymraeg – gan gynnwys ymglymiad Urdd Gobaith Cymru; a dosbarthiad y cyrsiau yn ddaearyddol. Diolchwyd i Rob Burton am ei gyfraniad.

Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 1 Medi 2017 – gweler cofnodion 2 i 5 yn gynhwysol, sydd wedi'u cofnodi ar wahân.

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 6 i 13 yn gynhwysol.

6. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 1 Medi 2017 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda

Cymeradwywyd y cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd yn Abertawe, fel cofnod cywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. Y Cynllun Strategol Diweddaredig ar gyfer 2016-2019

Roedd y fersiwn ddiwygiedig hon o'r Cynllun hwn (a gymeradwywyd yn wreiddiol gan y Cyngor yn y flwyddyn flaenorol) yn cynnwys rhai camgymeriadau drafftio yr oedd angen eu cywiro o hyd. Gofynnodd aelodau o'r Cyngor am i ragor o newidiadau gael eu gwneud i'r cyntaf o 'Ein Gwerthoedd' a restrir ar dudalen 4, i'w wneud yn gydlynus; ar dudalen 5, ble roedd angen diwygio dangosyddion perfformiad allweddol rhif 10 a 11 yn unol â'r penderfyniadau am y gyllideb a wnaed yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor; ac ar yr un dudalen ble roedd angen cysondeb

rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg amcan 3. **Yn sgil nodi'r rhain a'r newidiadau drafftio eraill gan staff, cymeradwywyd y Cynllun Strategol diweddaedig gan y Cyngor.**

8. Cytundeb drafft ffurfiol gyda TUC Cymru

Roedd y cytundeb fel y'i cyflwynwyd (trydydd drafft) wedi derbyn mewnbwn gan ein tîm astudiaethau undeb llafur yn ogystal ag uwch staff. Yn sgil contract gwerth £140,000 bob blwyddyn, roedd potensial i gynhyrchu rhagor o incwm o'r maes hwn. **Cymeradwywyd y drafft, ar yr amod y gallai unrhyw fân newidiadau a wneir iddo yng nghyfarfod dilynol Cyngor Cyffredinol TUC Cymru gael eu derbyn heb i'r ddogfen ddychwelyd at y Cyngor. Cytunwyd hefyd y dylid derbyn cyflwyniad ar ein gwaith yn gysylltiedig ag undebau llafur yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.**

9. Papur briffio'r Grŵp Ymgyrchu – Corff Strategol Cenedlaethol

Ail ddrafft oedd y fersiwn yn y papurau a ddisbarthwyd, yn deillio o ystyriaethau'r Grŵp ar ddrafft cyntaf a luniwyd gan Jeremy Gass. Gwnaeth y Cyngor nifer o awgrymiadau ar sut i'w gryfhau, sef: ychwanegu cyfeiriad at faterion ansawdd; rhagor o esboniad am ein partneriaid amrywiol o dan pwynt dot rhif 4; ac angen i nodi tystiolaeth ar pam yr opsiwn o gorff strategol cenedlaethol oedd yr un gorau a gynigiwyd. Teimlwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys y diagram un dudalen (crynodeb â map) o'n gweithgareddau addysgol fel rhywbeth gweledol i gyd-fynd ag ef. Byddai defnyddio ein haelodau fel cyfrwng, sefydlu grŵp Facebook caeedig, a lledaenu'r papur trwy'r Fforymau Rhanbarthol yn ychwanegu at weithgarwch eirioli'r sefydliad yn hyn o beth.

10. Cynhadledd ar y cyd â Chwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

Byddai cynhadledd yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd yn cael ei hwyluso gan Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru, yn cynnwys ni ein hunain a chyrrff eraill oedd yn gysylltiedig â'r mudiad cydweithredol ar y thema 'Addysg Oedolion yn y gymuned ar gyfer y gymuned'. Y bwriad oedd y byddai o leiaf 10 o gynrychiolwyr o'r sefydliad yn bresennol, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, aelodau o'r Grŵp Ymgyrchu.

11. Sefyllfa data addysgu a dysgu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016/17

Esboniodd Mark Baines y sefyllfa mewn perthynas â data'r flwyddyn flaenorol: roedd tua 7,000 o gofnodion i'w rhoi ar ein System Gwybodaeth Reoli o hyd. Ni fyddai yna unrhyw oblygiadau ariannol i'r ôl-groniad hwn, er y gallai fod yna effaith ar y ffigurau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant cyffredinol ar gyfer y flwyddyn. Er nad oedd ffigurau ar gyfer cwota rhanbarth y Gogledd ar hyn ar gael, dywedwyd wrth y Cyngor eu bod yn llai na'r rheiny ar gyfer y rhanbarthau eraill. Roedd bylchau staffio nad oeddent yn rhan o'r cynlluniau ailstrwythuro yn esbonio'r ôl-groniad hwn yn rhannol, ac i fynd i'r afael ag ef, roedd angen dyrannu mwy o adnoddau. Gwneir ymdrech hefyd i sicrhau nad oedd ardystio cyfranogwyr cyrsiau llwyddiannus yn cael ei gwblhau'n araf. **Cytunwyd y dylid parhau i gyflwyno dogfen wybodaeth un dudalen a oedd yn y gorffennol yn dwyn y teitl 'Demograffeg' i'r Cyngor, pan fo'n amserol.**

12. Protocolau ar gyfer aelodau'r Cyngor ar ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfathrebu

Ystyriwyd bod y tri phrotocol arfaethedig hyn yn faterion pwysig ond roedd gan aelodau amrywiol o'r Cyngor nifer o sylwadau yr oeddent yn dymuno eu gwneud a byddai'n well ganddynt gael cyfle i'w trafod yn llawn yn y cyfarfod canlynol, yn hytrach nag ar frys ar ddiwedd y cyfarfod hwn. Cafodd pwyntiau egwyddorol pwysig eu cynnwys yn y protocolau amlinellol a oedd wedi'u cynnwys yn y papur, a'r bwriad oedd cysylltu eu gweithredu â gweithdai hyfforddi dilynol ar gyfer aelodau'r Cyngor. **Yn y cyfamser, dylid anfon unrhyw sylwadau ar y cynnwys gan aelodau'r Cyngor at y Clerc.**

13. Dyddiadau nesaf cyfarfodydd y Cyngor a gadarnhawyd ar gyfer y dyddiadur

12.30 pm, dydd Iau 30 Tachwedd 2017: Iard y Cowper, Caerdydd

12.30 pm, dydd Mawrth 30 Ionawr 2018: Y Drenewydd, Powys

12 hanner dydd, dydd Gwener 23 Mawrth 2018: Bryn Menai, Bangor